# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 1af yn Neuadd Rhydlewis .

**Yn bresennol** Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Mark Davies
Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Rob Jones
Cyng. Sian Williams
Cyng. Emyr Jones
Cyng. Teifi Evans

**Clerc** Helen Horscroft

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Llyr Evans, Cyng. Carol Davies, Cyng. Osian Davies a'r Cyng. Ceri Jones.

**2. Datgan Diddordeb**

DIM

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

3.1 **-** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion Mehefin a chynigodd y Cyng. Teifi Evans eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Davies.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Mae angen gwneud yn siwr fod y blodau yn cael dwr.

4.2 Y Cyng. Sian Williams i ddanfon manylion y Toolkit ymlaen i bob Cynghorydd.

4.3 £23.00 BCCIT – Back up, Office 365 premium + £4.00 anti virus

**5. Materion y Cynghorydd Sir**

5.1 Mae yna reol newydd allan – dim ond 3 bag du sbwriel o bob cartref sydd i'w casglu bob 3 wythnos.

5.2 Roedd penwythnos diwethaf yn un llwyddianus iawn i'r Sir pan ddaeth Cystadlaeuaeth Seiclo i'r ardal. Roedd yn gyfle gwych i hybu'r Sir.

5.3 Mae'r Sioe Frenhinol mewn cwpwl o wythnosau, bydd llawer o weithgareddau ar y cae i ddenu pobol ifanc.

5.4 Mae Rali Ceredigion nol yn y sir – 5ed-7fed o Fedi.

5.5 Mae Bobi Jones yn neud yn dda – cynrhychioli Rygbi Cynghrair dan 18 yn Falkirk.

**6. Awdit 2024/2025**

6.1 Roedd angen cwblhau'r 'Annual Governance Statement' cyn danfon y cyfrifon ymlaen.

6.2 Cafodd y datganiad ei wneud. Cytunwyd gan pawb a oedd yn bresennol a chafodd ei arwyddo gan y Cadeirydd.

**7. Gohebiaeth**

7.1 Cytunwyd i dalu Gwyn £150 mis yma am ei waith gyda'r cyfrifon.

7.2 Angen rhoi copi caled o anfoneb o 'Solar Centre' gyda chyfrifon Gwyn.

7.3 Angen danfon manylion 'Lloches mewn Argyfwng i'r neuadde lleol.

7.4 Mae angen gofyn i BCCIT am bris 'Multi-function printers'. Gofyn iddynt am rhif y model er mwyn i ni gymharu pris gyda chwmnioedd eraill.

**8. Cyllid**

8.1 Gwnaeth y Cyng. Mark Davies a'r Cyng. Rob Jones arwyddo sieciau i :

Boomerang £204 , Sharon Thomas £77.85, Ashmole & Co £94.50, Eglwys Troedyraur £ 300, Trefhedyn £124.95 & £ 368.50 a Gwyn Jones £150

**9. Cyflog y Clerc**

9.1 Y Cyng. Mark Davies i edrych ar y Clerks Salary Scale Ebr 25-Maw 26 er mwyn rhoi e yn y cytundeb. Cytunwyd i dalu'r clerc yr un faint a llynnedd nes bod graddfa newydd yn ei le.

9.2 Y clerc i ffonio Eirian Evans ( Ashmole & Co) i drefnu newid manylion i'r Clerc newydd.

**10. Materion ardal**

**Ffostrasol -** rhywun yn taflu llawer o sbwriel wrth ochr yr heol ger ty Dr Llinos Jones – angen rhoi cwyn i CLIC. Fe wnaeth De-Fib ei waith – rhywun sal yn y tafarn wedi ei ddefnyddio. Diolch i Pauline Brett am ddod allan i newid y pads ar unwaith. Unrhyw newydd o Rhydeinon – na.

Cwyn wedi cyrraedd am fod safle bws ger y sgwar yn llawn sbwriel. Y Cyng. Mark Davies i fynd draw.

Mae fan camera cyflymder yn parcio'n lletwyth ar y ffordd mewn i Llys Gwyn.

**Brongest** - Llawer o bobl yn y pentre wedi dal Covid.

**Bwlchygroes** – Ma cwyn wedi dod i dorri'r clawdd i lawr yr hewl tuag at 'Caws Teifi'. Angen cofnodi fe ar CLIC.

**Coedybryn** – Rhoddwyd cydymdeimlad i Cyng. Sian Williams a'r teulu, ar ol iddi colli cefnither allan yn Awstralia.

**Rhydlewis** – Mae arbennigwr wedi bod allan yn edrych ar y goeden yn Twrgwyn. Ar hyn o bryd, mae'r goeden digon saff – mae e wedi arwyddo datganiad i gadarnhau hyn.

**Croeslan** – Mae Camddwr wedi bod allan yn torri porfa ac wedi gwneud gwaith da. Mae'r blwch ffon yn cal ei ddatgysylltu.

Mae porfa hir iawn yn tyfu ar y palmant o Groeslan i Ffostrasol . Mae’n edrych yn anniben iawn. Angen danfon cwyn trwy CLIC. Mae ceir yn cal trafferth i weld ar cyffwrdd sgwar Croeslan o gyfeiriad Tregroes. Mae rhywun sy’n byw yn fflat 1 Croeslan Villa wedi codi ffens bambw o amgylch yr ardd sy’n blocio’r golygfa. Y Cyng. Mark Davies yn nabod y tenantiaid, ac yn gobeitho cael gair.

**11. Toolkit**

11.1 Y Cyng. Sian Williams i ddanfon e allan i’r Cynghorwyr.

**12. Cyfarfod Nesaf**

**12.1 –** Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol ar Fedi 2ail am 7:30yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma’n gywir.



20.09.25

------------------------------------------------------------ ------------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad